# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 6

ADOLYGIAD GAN YR ACHWYNYDD

*Adolygu methiant y Comisiynydd i ymchwilio i gŵyn*

### 103 Hawl P i gael adolygiad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw P yn gwneud cwyn i'r Comisiynydd o dan adran 93 ynglŷn ag ymddygiad D ("yr ymddygiad honedig"), p'un a yw'r gŵyn honno yn gŵyn ddilys o dan yr adran honno ai peidio.

(2) Caiff P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu penderfyniad y Comisiynydd mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion sydd wedi eu nodi yn yr adran hon.

(3) Rhaid i'r Tribiwnlys, yn ddarostyngedig i adran 104, ymdrin â chais am adolygiad o'r fath fel pe bai'n gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

(4) Rhaid i'r Tribiwnlys roi caniatâd i wneud cais pan fo'r Tribiwnlys o'r farn—

- (a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu
- (b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

(5) Yr achos cyntaf y cyfeirir ato yn is-adran (2) yw—

- (a) pan fo'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a
- (b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.

(6) Yr ail achos yw—

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/07/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 103. (See end of Document for details)*

(a) pan fo adran 93(7) yn gymwys o ran cwyn, a
(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio.

(7) Y trydydd achos yw pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys.

(8) Y pedwerydd achos yw—
(a) pan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a
(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio o dan adran 93(8) neu, ar ôl ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.

(9) Y pumed achos yw—
(a) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad, a
(b) pan fo'r Comisiynydd wedyn yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad.

(10) Rhaid i gais o dan is-adran (2) gael ei wneud cyn diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(11) Ond caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan P, ganiatáu i gais o dan is-adran (2) gael ei wneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys wedi ei fodloni bod rheswm da—
(a) dros y methiant i wneud cais cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a
(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i wneud cais ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(12) Caniateir i gais o dan is-adran (11) gael ei wneud cyn diwedd neu ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(13) Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar gais o dan is-adran (2).

(14) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir gwneud ceisiadau o dan yr adran hon).

(15) Yn y Bennod hon ystyr “cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau” yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y bu i'r Comisiynydd hysbysu P o'i benderfyniad o dan adran 94.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 103 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 103 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/07/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 103.